# CORONAVIRUS AND KEY MESSAGES ON FLY-TIPPING DURING THE FIREBREAK LOCKDOWN

## FLY-TIPPING ACTION WALES — PARTNER SUPPORT SHEET

This document contains useful resources for partners to use across owned digital platforms during the coronavirus pandemic to help share advice, guidance, and key messages around fly-tipping and safe waste management with people living in Wales.

### AVAILABLE RESOURCES:

- Template social media posts and graphics
- Template web copy

All of the resources are available in Welsh and English.

Please share this document with your Communications and Marketing teams, as well as any of your own partners that you feel may be interested in using the shared resources.

If you have any queries in relation to this document, please contact the team at Fly-tipping Action Wales.

# CORONAFEIRWS A NEGESEUON ALLWEDDOL AR DIPIO ANGHYFREITHLON YN YSTOD Y CYFNOD ‘TORIAD TÂN’

## TACLO TIPIO CYMRU – TAFLEN CYMORTH PARTNERIAID

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys adnoddau defnyddiol y gall partneriaid eu defnyddio ar bob platfform digidol yn ystod y pandemig coronafeirws i helpu i rannu cynghorion, canllawiau a negeseuon allweddol sy’n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon a rheoli gwastraff yn ddiogel â phobl sy’n byw yng Nghymru.

### ADNODDAU SYDD AR GAEL:

- Templedi o bostiadau cyfryngau cymdeithasol a graffeg
- ‘Gwe gopi’ templed

Mae’r holl adnoddau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhannwch y ddogfen hon â’ch timau Cyfathrebu a Marchnata, yn ogystal ag unrhyw un o’ch partneriaid y teimlwch y gallent fod â diddordeb mewn defnyddio’r adnoddau a rennir.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â’r ddogfen hon, cysylltwch â’r tîm yn Taclo Tipio Cymru.

## SOCIAL MEDIA GRAPHICS - ENGLISH

**Download here.**
























## SOCIAL MEDIA GRAPHICS – WELSH
























TACLO TIPIO CYMRU FLY-TIPPING ACTION WALES

## TEMPLATE SOCIAL MEDIA POSTS

<table>
<tr><th></th><th>Graphic</th><th>English<br>(max character count on Twitter is 280, but longer posts can be posted as a Twitter threads if required)</th><th>Cymraeg</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Doing some DIY at home?<br><br><br><br></td><td><u>Twitter</u><br><br>If you're having a clear-out, gardening or doing DIY during the firebreak lockdown period:<br><br>➔ Please think about how you will manage this extra rubbish.<br>➔ If you cannot store the waste safely at your property, postpone your project.<br><br>#KeepWalesSafe<br><br><u>Facebook</u><br><br>If you're having a clear-out, gardening or doing DIY during the firebreak lockdown period:<br><br>➔ Re-use plastic bottles and tubs for other household activities and chores.<br>➔ Recycle as much as possible to save on space in your rubbish bin.<br>➔ Postpone DIY projects, gardening and spring clear outs if you cannot safely store excess rubbish at your property.<br><br>#KeepWalesSafe</td><td><u>Twitter</u><br><br>Os ydych yn clirio, yn garddio neu'n gwneud gwaith o amgylch y tŷ yn ystod y cyfnod clo byr:<br><br>➔ Meddyliwch sut y byddwch yn rheoli'r sbwriel ychwanegol hwn<br>➔ Os na allwch storio'r gwastraff yn ddiogel yn eich eiddo, gohiriwch y prosiect<br><br>#DiogeluCymru<br><br><u>Facebook</u><br><br>Os ydych yn clirio, yn garddio neu'n gwneud gwaith o amgylch y tŷ yn ystod y y cyfnod clo byr:<br><br>➔ Ailddefnyddiwch boteli a thybiau plastig ar gyfer tasgau gwaith tŷ eraill<br>➔ Ailgylchwch gymaint ag y gallwch i arbed lle yn eich bin sbwriel.<br>➔ Gohiriwch brosiectau DIY, garddio a chlirio'r tŷ os na allwch storio'r sbwriel ychwanegol ar eich eiddo.<br><br>#DiogeluCymru</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **Store your waste, safely**.<br><br> | **<u>Twitter and Facebok</u>**<br><br>Storing rubbish at home can be a hazard if not stored safely, including a risk of fire.<br><br>➔ Please be sensible and do not burn waste in your garden<br>➔ If you can't store rubbish safely, please re-consider creating excess rubbish until restrictions have been lifted.<br><br>#KeepWalesSafe | **<u>Twitter and Facebook</u>**<br><br>Gall storio sbwriel gartref fod yn beryglus os nad yw'n cael ei storio yn ddiogel, a gallai achosi tân.<br><br>➔ Byddwch yn synhwyrol a pheidiwch â llosgi gwastraff yn eich gardd.<br>➔ Os na allwch storio sbwriel yn ddiogel meddyliwch eto cyn cynhyrchu gormod o sbwriel nes bydd cyfyngiadau wedi'u codi.<br><br>#DiogeluCymru |

<table>
<tr>
<td>3</td>
<td>Household Waste Recycling Centres are currently closed.<br><br>

<br>

</td>
<td><u>Twitter and Facebook</u><br><br>Over the course of the firebreak lockdown, all HWRC’s are closed & many bulky waste collection services are temporarily unavailable.<br><br>➔ Please store any waste SAFELY until the services resume.<br><br>Visit your Council’s website for more advice & guidance.<br><br>#KeepWalesSafe</td>
<td><u>Twitter and Facebook</u><br><br>Dros gyfnod y clo byr, mae pob CAGC wedi cau ac nid oes llawer o wasanaethau casglu gwastraff swmpus ar gael dros dro.<br><br>➔ Storiwch unrhyw wastraff YN DDIOGEL nes bydd y gwasanaethau yn ailgychwyn.<br><br>Ewch i wefan eich Cyngor i gael rhagor o gyngor a chanllawiau.<br><br>#DiogeluCymru</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | **Fly-tipping is a serious crime.**<br><br><br><br> | **<u>Twitter and Facebook</u>**<br><br>There is never an excuse for fly-tipping but doing so during a national health emergency puts more pressure on already stretched resources and staff.<br><br>Safely store waste at home until the firebreak lockdown is over.<br><br>Don’t risk:<br>➔ an unlimited fine<br>➔ criminal record<br>➔ imprisonment<br><br>#KeepWalesSafe | **<u>Twitter and Facebook</u>**<br><br>Ni ellir byth esgusodi tipio anghyfreithlon ond mae gwneud hynny yn ystod argyfwng iechyd cenedlaethol yn rhoi hyd yn oed fwy o straen ar adnoddau a staff sydd eisoes dan bwysau.<br><br>Storiwch wastraff yn ddiogel yn eich cartref nes bydd y clo byr drosodd.<br><br>Peidwch â mentro a chael<br>➔ dirwy ddiderfyn<br>➔ cofnod troseddol<br>➔ eich carcharu<br><br>#DiogeluCymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | **Don't get duped during lockdown.**<br><br> | **<u>Twitter</u>**<br><br>Beware of adverts offering cheap rubbish removal during the firebreak lockdown.<br><br>If you give your rubbish to someone & it is fly-tipped, YOU could be fined.<br><br>➔ Visit the [@NatResWales] website to confirm the person you are using is a registered waste carrier<br><br>#KeepWalesSafe<br><br>**<u>Facebook</u>**<br><br>Be aware of adverts on social media offering cheap rubbish removal during the firebreak lockdown.<br><br>If you give your rubbish to someone else and it is found to be fly-tipped — you could be fined.<br><br>➔ Visit the [@NatResWales] website to confirm the person you are using is a registered waste carrier.<br>➔ It is useful to record vehicle details.<br>➔ Keep copies of any messages sent or received.<br><br>💻: dutyofcare.wales | **<u>Twitter</u>**<br><br>Cofiwch ddrwgdybio hysbysebion sy'n cynnig gwaredu gwastraff yn rhad yn ystod cyfnod y clo byr.<br><br>Os byddwch yn rhoi eich sbwriel i rywun ac y bydd yn cael ei dipio'n anghyfreithlon, efallai mai CHI fydd yn cael eich dirwyo.<br><br>➔ Ewch i wefan [@CyfoethNaturiolCymru] i sicrhau fod yr unigolyn ydych chi'n ei ddefnyddio yn gludwr gwastraff cofrestredig<br><br>#DiogeluCymru<br><br>**<u>Facebook</u>**<br><br>Cofiwch ddrwgdybio hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnig gwaredu gwastraff yn rhad yn ystod cyfnod y clo byr.<br><br>Os byddwch yn rhoi eich sbwriel i rywun arall ac y bydd yn cael ei dipio'n anghyfreithlon, gallech gael eich dirwyo.<br><br>➔ Ewch i wefan [@CyfoethNaturiolCymru] i sicrhau fod yr unigolyn ydych chi'n ei. ddefnyddio yn gludwr gwastraff cofrestredig<br>➔ Mae'n ddefnyddiol cofnodi manylion y cerbyd.<br>➔ Cadwch gopïau o unrhyw negeseuon a anfonwyd neu a dderbyniwyd.<br><br>💻: dyletswyddgofal.cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6** | **This is still fly-tipping.**<br><br><br><br> | **<u>Twitter and Facebook</u>**<br><br>Leaving rubbish or unwanted items outside the following places is still classed as fly-tipping:<br><br>➔ Charity shops<br>➔ Tips / HWRC's<br>➔ Recycling banks<br><br>Fly-tipping is a serious crime. Safely store your waste until the firebreak lockdown is over.<br><br>#KeepWalesSafe | **<u>Twitter and Facebook</u>**<br><br>Mae gadael sbwriel neu eitemau diangen y tu allan i'r mannau canlynol yn dal i gael ei gyfrif fel tipio anghyfreithlon:<br><br>➔ Siopau elusen<br>➔ Tomenni gwastraff /Canolfannau AGC<br>➔ Banciau ailgylchu<br><br>Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd ddifrifol. Storiwch eich gwastraff yn ddiogel nes bydd cyfnod y clo byr drosodd.<br><br>#DiogeluCymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7** | **Over 70% of fly-tipping incidents contain household waste.**<br><br><br><br> | **<u>Twitter and Facebook</u>**<br><br>If you pay someone to remove rubbish from your home, always check that they hold an official waste carrier licence and ask where your waste is going.<br><br>If you don’t and your rubbish ends up fly-tipped, you could be fined!<br><br>Visit the @NatResWales website for a list of registered waste carriers in Wales.<br><br>#KeepWalesSafe | **<u>Twitter and Facebook</u>**<br><br>Os byddwch yn talu i rywun am fynd â sbwriel o'ch cartref, sicrhewch bob amser ei fod yn dal trwydded cludydd gwastraff swyddogol a gofynnwch i ble mae eich gwastraff yn mynd.<br><br>Os na wnewch chi hynny a bod eich sbwriel yn cael ei dipio'n anghyfreithlon, gallech gael dirwy!<br><br>Ewch i wefan @NatResWales lle mae rhestr o’r cludwyr gwastraff cofrestredig yng Nghymru.<br><br>#DiogeluCymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | **Household Waste Recycling Centres have now re-opened.**<br><br><br><br> | **<u>ONLY TO BE USED ONCE HOUSEHOLD WASTE RECYCLING CENTRES HAVE RE-OPENED</u>**<br><br>**<u>Facebook:</u>**<br><br>Household Waste Recycling Centres have now re-opened in Wales.<br><br>During this time of national emergency, you must only travel to your local Recycling Centre if:<br><br>→ Your rubbish cannot be picked up by your Council's kerbside collection service.<br><br>→ You are unable to safely store your excess rubbish at home.<br><br>→ Social distancing must be observed at all times. There are likely to be queues and some facilities will require advance booking online.<br><br>✕ You must not use this service if anybody in your household has any symptoms of COVID-19.<br><br>Please check your Council website for the latest updates and guidance on visiting your local Recycling Centre.<br><br>#KeepWalesSafe<br><br>**<u>Twitter:</u>**<br><br>Household Waste Recycling Centres have now re-opened in Wales. You must only travel to your local Centre if: | **<u>DEFNYDDIWCH UNWAITH Y BYDD CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF CARTREFI YN AILAGOR</u>**<br><br>**<u>Facebook:</u>**<br><br>Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi bellach wedi ailagor yng Nghymru.<br><br>Yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn, dim ond am y rhesymau canlynol y dylech deithio i'ch Canolfan Ailgylchu leol:<br><br>→ Nid yw gwasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd eich Cyngor yn gallu mynd â'ch sbwriel.<br><br>→ Dydych chi ddim yn gallu storio eich sbwriel ychwanegol yn ddiogel gartref.<br><br>→ Rhaid cadw pellter cymdeithasol bob amser. Mae'n debygol y bydd ciwiau a bydd rhaid trefnu'ch ymweliad ymlaen llaw ar-lein ar gyfer rhai cyfleusterau.<br><br>✕ Ni ddylech ddefnyddio'r gwasanaeth os oes gan unrhyw un yn eich cartref symptomau COVID-19.<br><br>Ewch i wefan eich Cyngor i weld y newyddion a'r canllawiau diweddaraf ar gyfer ymweld â'ch Canolfan Ailgylchu leol.<br><br>#DiogeluCymru<br><br>**<u>Twitter:</u>** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ➡Your rubbish can't be picked up by your kerbside collection service.<br><br>➡You are unable to safely store your excess rubbish at home *(thread 1)*<br><br>Check your Council website for updates on your local Centre.<br><br>Social distancing must be observed at all times.<br><br>#KeepWalesSafe (thread 2) | Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi bellach wedi ailagor yng Nghymru. Gallwch deithio i'ch Canolfan leol dim ond os:<br><br>➡ Nad yw'ch gwasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd yn gallu mynd â'ch sbwriel.<br><br>➡ Nad ydych chi'n gallu storio eich sbwriel ychwanegol yn ddiogel gartref (thread 1)<br><br>Bydd newyddion am eich Canolfan leol ar wefan eich Cyngor.<br><br>Rhaid cadw pellter cymdeithasol bob amser.<br><br>#DiogeluCymru *(thread 2)* |

On Twitter, because of the strict character limit, it is hard to always fit in the campaign key messages into one single Tweet (and Welsh translation always tends to be even longer than the English copy – so can be a bit of an issue).

Therefore, some of the Twitter posts in the toolkit will be longer than the 280 character limit – but these can still be posted easily as Twitter threads (i.e. splitting the copy across two connected tweets – so that if a user sees / clicks on one of the Tweets, the connecting Tweet will always appear with it).

1.To connect tweets in Twitter - Click the "Tweet" button to compose a new Tweet. Write the first Tweet of your thread. Click the new "Add another Tweet" button and a 2nd Tweet window will pop up. You can publish the entire thread at the same time with the "Tweet all" button.

Ar Twitter, oherwydd y cyfyngiad ar nodau, mae'n anodd ffitio prif negeseuon yr ymgyrch mewn un Trydariad (ac mae cyfieithiadau Cymraeg yn aml yn dueddol o fod yn hirach na'r testun Saesneg – felly gall hynny achosi problem).

Felly, bydd rhai o'r postiadau Twitter yn y pecyn cymorth yn fwy na'r cyfyngiad o 280 nod – ond mae'n dal yn bosibl eu postio yn rhwydd fel edefynnau Twitter (h.y. rhannu'r copi yn ddau drydariad cysylltiedig – felly os yw defnyddiwr yn gweld / clicio ar un o'r Trydariadau, bydd y Trydariad cysylltiedig bob amser yn ymddangos gydag ef).

1.Er mwyn cysylltu trydariadau yn Twitter – Cliciwch y botwm "Tweet" i greu Trydariad newydd. Ysgrifennwch Drydariad cyntaf eich edefyn. Cliciwch y botwm "Add another Tweet" newydd a bydd ffenestr ail Drydariad yn agor. Gallwch gyhoeddi'r edefyn cyfan yr un pryd drwy bwyso ar y botwm "Tweet all".

## WEB COPY

Fly-tipping Action Wales has drafted the below web copy for sharing advice and guidance on safe waste storage during the firebreak lockdown period, while warning householders to be vigilant when accepting offers for waste removal services on social media platforms during this time.

Please feel free to use this copy on your website as a news article if desired.

Text highlighted in yellow can be tweaked to make the press release more applicable to your local area e.g. 'Wales' can be changed to 'Pembrokeshire'.

## WEB COPY

Mae Taclo Tipio Cymru wedi drafftio'r 'gwe gopi' isod i rannu cyngor a chanllawiau ar storio gwastraff yn ddiogel yn ystod y cyfnod 'toriad tân', ac mae'n rhybuddio deiliaid tai i fod yn wyliadwrus wrth dderbyn cynigion am wasanaethau gwaredu gwastraff ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae croeso ichi ddefnyddio'r copi hwn ar eich gwefan fel erthygl newyddion os dymunwch.

Gellir addasu'r testun sydd wedi ei liwio'n felyn er mwyn gwneud y datganiad yn fwy perthnasol i'ch ardal leol e.e. gellir newid 'Cymru' yn 'Sir Benfro'.

*ENGLISH:*

### Householders in Wales urged to steer clear of illegal rubbish removal operators advertising on social media during the Coronavirus Firebreak Lockdown

Fly-tipping Action Wales is urging householders across Wales to manage their rubbish responsibly and be vigilant when accepting offers from individuals posing as legitimate waste disposal businesses on social media during the coronavirus firebreak lockdown.

Householders are also encouraged to postpone garden and home DIY projects until lockdown restrictions are lifted, unless they are able to safely store excess waste at their property without causing health and safety risks, such as fire hazards.

The stern warning from Fly-tipping Action Wales follow concerns from local authorities over the number of people offering illegal rubbish removal services in community groups such as those found on Facebook, which they fear has increased since social distancing restrictions were enforced in Wales in March as part of the national fight against coronavirus.

While many people are already minimising their waste production and disposing of it correctly, householders are reminded that they have a legal duty of care to check with Natural Resources Wales that the person they use to remove rubbish from their home is a registered waste carrier — particularly at this time of national emergency.

In line with the Welsh Government firebeak lockdown rules and restrictions in Wales, all Household Waste Recycling Centres (often referred to as ‘local tips’) in Wales will close from 5pm on Friday 23 October until further notice.

Therefore, Fly-tipping Action Wales warn that householders are at an increased risk of being scammed by unregistered individuals, who are taking advantage of lockdown restrictions by offering cheap rubbish removal services. These individuals often dump the waste illegally in fields, on roadsides and along country-lanes.

If a waste enforcement officer traces fly-tipped rubbish back to a householder that did not make the appropriate checks for a registered waste carrier, they risk an unlimited fine and prosecution. Local authorities across Wales can also issue the householder with a £300 fixed penalty notice as an alternative to prosecution.

A list of registered waste carriers, which should be used to carry out these vital checks, can be found on the Natural Resources Wales website.

Fly-tipping Action Wales also recommend that people ask where their rubbish is going, request a receipt from the company used to remove the waste and record details of the vehicle involved, including make, model and registration number.

Fly-tipping Action Wales Programme Manager, Neil Harrison, commented: *“For everyone's health and safety and out of respect for our local authority staff who are working hard to provide communities with vital services, please follow your duty of care and dispose of your waste responsibly.*

*If somebody offers you rubbish removal services through social media, you have a legal duty to check that the person or business is a registered waste carrier before using them.*

*“Fly-tipping is a criminal offence and those committing this crime, particularly during a time of national emergency are placing more pressure on already stretched resources and staff, while putting the waste enforcement officers who investigate and clear up fly-tipped refuse at risk.*

*“We urge householders to store excess waste at home, or if safe storage isn’t possible, we advise postponing DIY projects that are likely to create high volumes of rubbish until the fire-break lockdown restrictions are lifted in November and Household Waste Recycling Centres are re-opened.*

*“We’d also like to remind everyone that leaving unwanted household items and rubbish outside full recycling banks or closed facilities, such as charity shops and local council tips, is still classed as fly-tipping.“Those who choose to fly-tip can face up to a £50,000 fine or twelve months imprisonment if prosecuted at a Magistrate’s Court.”*

**Fly-tipping is a serious crime. It causes considerable damage to the environment, the economy and local communities — with the consequences being up to a £50,000 fine or 12 months imprisonment for the offender.**

**For more information on ways to manage your waste safely, legally and responsibly during the coronavirus lockdown, please visit flytippingactionwales.org, follow @FtAW on Twitter or search @FtAWales Facebook.**

*CYMRAEG:*

## Annog deiliaid tai yng Nghymru i gadw’n glir o weithredwyr gwaredu sbwriel anghyfreithlon sy’n hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod Cyfnod Clo Byr y Coronafeirws

Mae Taclo Tipio Cymru yn annog deiliaid tai ledled Cymru i reoli eu sbwriel mewn modd cyfrifol a bod yn wyliadwrus wrth dderbyn cynigion gan unigolion sy’n honni ar y cyfryngau cymdeithasol eu bod yn fusnesau gwaredu gwastraff cyfreithlon yn ystod cyfyngiadau clo byr y coronafeirws.

Hefyd, caiff deiliaid tai eu hannog i ohirio prosiectau garddio a DIY hyd nes y caiff y cyfyngiadau symud eu codi, oni bai y bydd modd iddynt storio’r gwastraff ychwanegol yn eu cartrefi heb arwain at risgiau iechyd a diogelwch, fel peryglon tân.

Mae’r rhybudd llym gan Taclo Tipio Cymru yn dilyn pryderon gan awdurdodau lleol ynghylch nifer y bobl sy’n cynnig gwasanaethau gwaredu sbwriel anghyfreithlon mewn grwpiau cymunedol, fel y rhai sydd ar Facebook – rhywbeth y maent yn ofni ei fod ar gynnydd ers i’r cyfyngiadau o ran cadw pellter cymdeithasol ddod i rym yng Nghymru ym mis Mawrth fel rhan o’r frwydr genedlaethol yn erbyn y coronafeirws.

Er bod nifer o bobl eisoes yn ceisio cynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl, gan gael gwared ag ef yn y dull priodol, caiff deiliaid tai eu hatgoffa fod ganddynt ddyletswydd gofal gyfreithiol i gadarnhau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fod y sawl a ddefnyddir ganddynt i gael gwared â’r sbwriel o’u cartref yn gludydd gwastraff cofrestredig – yn enwedig ar hyn o bryd, a ninnau yng nghanol argyfwng cenedlaethol.

Yn unol â rheolau a chyfyngiadau cyfnod clo byr Llwyodraeth Cymru bydd yr holl Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yng Nghymru (a gaiff eu galw'n 'dipiau lleol' yn aml) yn cau am 5pm ddydd Gwener, 23 Hydref, hyd nes y clywir yn wahanol.

Felly, mae Taclo Tipio Cymru yn rhybuddio bod deiliaid tai yn fwy tebygol o gael eu twyllo gan unigolion nad ydynt wedi cofrestru, sy'n manteisio ar y cyfyngiadau symud trwy gynnig gwasanaethau gwaredu gwastraff rhad. Yn aml, mae'r unigolion hyn yn gollwng y gwastraff yn anghyfreithlon mewn caeau, ar ymylon ffyrdd ac ar hyd lonydd cefn gwlad.

Os yw swyddog gorfodi gwastraff yn llwyddo i olrhain sbwriel a dipiwyd yn anghyfreithlon at ddeiliad tŷ a aeth ati i ddefnyddio gwasanaethau rhywun heb wirio ei fod yn gludydd gwastraff cofrestredig, fe allai'r deiliad tŷ hwnnw wynebu dirwy ddiderfyn a chael ei erlyn. Ymhellach, gall awdurdodau lleol ledled Cymru gyflwyno hysbysiad cosb benodedig o £300 i ddeiliaid tai, yn hytrach na'u herlyn.

Gellir dod o hyd i restr o gludwyr gwastraff cofrestredig – y dylid ei defnyddio i wneud y gwiriadau hollbwysig hyn – ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Taclo Tipio Cymru hefyd yn argymell y dylai pobl ofyn i ble y bydd eu sbwriel yn mynd, ynghyd â gofyn am dderbynneb gan y cwmni a ddefnyddiwyd i gael gwared â'r gwastraff a chofnodi manylion y cerbyd a ddefnyddiwyd, yn cynnwys ei wneuthuriad, ei fodel a'i rif cofrestru.

Dywedodd Neil Harrison, Rheolwr Rhaglen Taclo Tipio Cymru: *"Er lles iechyd a diogelwch pawb, ac er parch i staff ein hawdurdodau lleol sy'n gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau hanfodol i gymunedau, cofiwch gadw at eich dyletswydd gofal a gwaredu eich gwastraff mewn modd cyfrifol.*

*"Os bydd rhywun yn cynnig gwasanaethau gwaredu sbwriel i chi ar y cyfryngau cymdeithasol, mae gennych ddyletswydd gofal gyfreithiol i wirio bod y person neu'r busnes dan sylw yn gludydd gwastraff cofrestredig cyn ei ddefnyddio.*

*"Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd, ac mae'r bobl sy'n cyflawni'r drosedd hon – yn enwedig a ninnau yng nghanol argyfwng cenedlaethol – yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau a staff sydd eisoes yn brin, gan roi'r swyddogion gorfodi gwastraff a fydd yn ymchwilio i'r tipio anghyfreithlon, ac yn ei glirio, mewn perygl.*

*"Rydym yn annog deiliaid tai i storio unrhyw wastraff ychwanegol yn eu cartrefi; neu os na fydd hyn yn bosibl, rydym yn eu cynghori i ohirio unrhyw brosiectau DIY sy'n debygol o greu llawer o wastraff hyd nes y bydd y cyfyngiadau symud wedi cael eu codi ym mis Tachwedd a hyd nes y bydd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi wedi ailagor.*

*“Hefyd, hoffem atgoffa pawb fod gadael sbwriel ac eitemau cartref nad oes eu hangen mwyach y tu allan i fanciau ailgylchu neu gyfleusterau sydd ar gau, fel siopau elusen a chanolfannau gwastraff lleol, yn cael ei ystyried yn achos o dipio anghyfreithlon.*

*“Gall y rhai sy’n dewis tipio’n anghyfreithlon wynebu dirwy o hyd at £50,000 neu ddeuddeg mis o garchar os ydynt yn cael eu herlyn mewn Llys Ynadon.”*

**Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd ddifrifol. Mae’n achosi niwed mawr i’r amgylchedd, i’r economi ac i gymunedau lleol – ac fe allai’r sawl sy’n cyflawni’r drosedd hon wynebu dirwy o hyd at £50,000 neu 12 mis o garchar.**

**I gael mwy o wybodaeth am ffyrdd o reoli eich gwastraff yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol yn ystod cyfyngiadau’r coronafeirws, edrychwch ar flytippingactionwales.org/cy, dilynwch @FtAW ar Twitter neu chwiliwch am @FtAWales ar Facebook.**

**-ENDS-**